Mythau Iechyd a Diogelwch Mawr

Y myth Mae topins hufen iâ wedi'u gwahardd am resymau diogelwch

Y gwirionedd Roeddem wedi ein synnu yn ddiweddar o glywed bod topins hufen iâ wedi'u gwahardd oherwydd pryderon ynghylch iechyd a diogelwch.

Daeth y si hwn oddi wrth barlwr hufen iâ a oedd yn rhoi topins ychwanegol mewn cynwysyddion ar wahân, yn lle eu tywallt dros yr hufen iâ. Roeddent yn poeni y gallai pobl lithro ar unrhyw dopins a fyddai'n gollwng.

Mae'n bwysig atal llithriadau – dyma achos mwyaf cyffredin anafiadau mawr o hyd. Ond yn yr achos hwn byddai clirio unrhyw dopins a fyddai'n gollwng yn sicrhau na fyddai pobl yn llithro ac yn helpu'r cwmni i barhau i wneud i hufen iâ gwych flasu hyd yn oed yn well!